# CERDD NEWYDD,

SEF

# Breuddwyd Hynod,

## Yn nghylch Cyfraith Newydd y Tylodion, neu y Work-house a'i ganlyniadau.

4.93
X205213730





MAE genyf yma ganiad, os cenad genych gaf,
Ac adrodd fy mreuddwydion yn union i chwi a wnaf
Mi welais ar ryw noswaith un weledigaeth dost,
Am bendefigion Bryda'n mae'n fychan iawn y fost.

Mi welwn wŷr y Senedd yn ymgrynhoi y'nghyd
Yn erbyn y tylodion yn gysson oll i gyd,
I godi cyfraith newydd, annedwydd oedd eu nâd,
A gwneud carcharau crenlon i dlodion yr holl wlad.

Mi welwn dai anferthol rhyfeddol iawn o fawr,
A gyrant y tylodion yn union yno'n awr;
Y gwyr oddiwrth eu gwragedd ar hynt gymerant hwy,
A'r plant oddiwrth rieni, O g'ledi erchyll glwy'!

Fe dd'wed yr *Overseer* mewn moddion tyner têg,
Na wiw i dl'awd ond hyny mo gynnyg lledu ei gêg;
Caiff weithio mewn caledi i gadw ei deulu mân,
Neu fyn'd i'r *House Industry* i hanner l'wgu yn lân?

Wel dyma gyfraith enbyd mae'n arswyd d'weud yn wir,
Carcharu dyn am d'lodi yn Mrydain dawel dir;
Bydd mwy o ladd a 'speilio mi allaf dystio'n dyn,
A phob rhyw garchar beunydd yn llawn oherwydd hyn

Ar foneddigion Brydain bydd costau creulon, croes,
A'r holl denantiaid hefyd, mewn dyled hyd eu hoes:
Aiff rhai yn foneddigion ar gost tylodion lu,
Mae Brydain'awr'rwy'n meddwl o dan ryw gwmwl du

Fe fydd hen wragedd Cymry yn tyngu a rhegu yn
rhwydd,
Wrth wel'd y fath gaethiwed mor galed yn eu gwydd:
Ffarwel am fwyd neu gardod, er saled oedd eu swm,
Ffarwel am wlân ond hyny, mae'n tramwy newydd
trwm

Bydd Modlen Tyddyn isa, a Sina yn eitha' sur,
Wrth gael eu troi i gysgu i'r gwely heb eu gwyr;
Bydd Mari Morgan hefyd, yn d'wedyd yr un dôn
Nad eill y nos gynesu yn siwr heb gwm'ni Siôn.

Bydd Wil o'r Pandy budr, yn ddigon sur ei saig,
Wrth weled ei gaethiwo a'i rwystro at ei wraig;
Chaiff yntau Sionyn Wmffre m'or hanner chwareu têg
'Rol cysgu bydd yn gwaeddi am Gadi nerth ei gêg.

Rhyw lencyn wrth briodi attebai yn ddigrif iawn,
Pan glywodd yr Offeiriad yn ei ddarlleniad llawn,
Hyd angeu gwna'ch cyssylltu; O Syr, nid felly'n siwr
Ond hyd y *Workhouse* newydd, mi fydda'n ufudd ŵr!

Gochelwch chwithau'r merched rhag mynd i chwar-
eu'r chwinge,
Mae'n dost ar lawer lodes fu gynt yn baunes binc;
Ca'nt fagu eu plant eu hunuin anedwydd iawn eu nad,
Ni waeth i'r un ond hyny mo dyngu pwy 'dyw dad.

Ceir gweled aml ffarmwr mewn cyflwr digon caeth;
Bydd trethi mawr diarbed, ceir gweled asmer gwaeth;













Estroniaid o Wyddelod, y Scots a'r Saeson sur,
Osodant yn Stiwardiaid, mae hyn yn galed gur.

Nid oes trwy'r gair yn sicr dystiolaeth gwir i'w gael,
Nac un gorchymyn trwyddo i'r gwych gaethiwo'r gwael
Nac ysgar un briodas, anaddas ydyw'r nôd,
Erioed ni luniwyd cyfraith o fath hon yma i fod;

Ni chaiff na gwyr na gwragedd yn y carchar hagr hwn
Na *Snuff* Na dim *Tobacco* na *Thea* er ei geisio gwn;
Na gweled chwaith eu gilydd bydd hyny'n dramgwydd
trwm
A llawer bron a ll'wgu o fewn y llety llwm

Os gwnaeth *Refform* o ddifri' fath g'ledi yn ein gwlad
Ar ol i bawb ei phleidio mewn cyffro'n ddi nacad;
Boed hwch y Bwl yn dyrnu cyn i mi brofi ei naws,
A llong ar ben y Wyddfa, a'r Gadair hithau'n gaws.

'Roedd Dic a Robin Morris, ag Ellis Bwlch y gwynt
Yn d'weyd bod eu caethiwed mor gaeth ag Israel gynt
A chanoedd mewn caledi yn ymboeni o eisiau bwyd?
Wrth waithio mewn cyfyngder bydd llawer gwyneb
llwyd

O Brydain Fawr buredig mae'n berygl i ti o bwys
O achos dy gyfreithiau gael dialeddau dwys!
Rhyddheaist gaethion *India* yn gyfa bod ag un
Yn awr 'rwyt am gaethiwo dy hynod wlad dy hun.

Mae pawb sy'n perchen golud o sŵn eu dedfryd sur
Caiff gwyr gwmpeini eu gwragedd, a'r gwragedd gwm-
'ni eu gwyr;
Ond nid yw priodasau i gyd ond geiriau gwawd.
Yr undeb hwn ddattodir os ledir hwy'n dylawd!!

Pe gyrid y tylodion i gyd o Frydain Fawr,
Ni fyddai ond boneddigion yn union yno 'nawr:
Ffarwel am dreth i'r Brenin, na chwaith am drin y tir,
Na llongwr, crefftwr, sawdwr, na gweithiwr, dyma'r
gwir.

Mae rhai o fonedd Cymru yn ysgrifenu'n faith,
Nes yw eu gwaed ar sefyll wrth wel'd yr erchyll waith
Mae rhywun tlawd yn perthyn i'r bonedd pena'r byd,
Ac mae gwehilion gwehwch i'r gwenith goreu i gyd.

Syr Robert Vôn, o Nannau, a Meirig haeddai glod,
Ac amryw foneddigion yn rhwyddlon îs y rhod,
Am gym'ryd plaid tylodion mewn moddion tirion têg,
Trwy'r Gogledd a'r Deheudir, yn frodyr mwyn difrêg.

Wel dyma swm y breuddwyddwyd a welwyd geny
'n wir,
Gobeithio na chawn ddyoddef dan fin y cleddyf clir,
Mewn 'Undeb a Brawdgarwch', cydsyniwch yn disèn
A chofiwch y tylodion, wyr mwynion oll, Amen.

YWAIN MEIRION

---

*Llanrwst, Argraffwyd gan John Jones.*

[1834]